Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Trefniadau cyllido remand ieuenctid

## Ymateb i'r ymgynghoriad ar drefniadau cyllido remand ieuenctid

Chwefror 2024

[gadewch y dudalen hon yn wag – cefn y clawr]

Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Ymateb i'r ymgynghoriad ar drefniadau cyllido remand ieuenctid

**Ymateb i ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.**

**Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael yn https://consult.justice.gov.uk/**

[gadewch y dudalen hon yn wag – cefn y dudalen deitl]

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad a manylion cyswllt** | **3** |
| **Cefndir** | **4** |
| **Crynodeb o'r ymatebion** | **6** |
| **Ymatebion i gwestiynau penodol** | **8** |
| **Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg** | **18** |
| **Casgliad a'r camau nesaf** | **19** |
| **Egwyddorion ymgynghori** | **20** |
| **Atodiad A – Rhestr o’r ymatebwyr** | **21** |

[gadewch y dudalen hon yn wag – cefn y dudalen gynnwys]

# Cyflwyniad a manylion cyswllt

Y ddogfen hon yw'r adroddiad ar ôl ymgynghori ar y papur ymgynghori ynghylch Trefniadau Cyllido Remand Ieuenctid.

Bydd yn mynd i'r afael â'r canlynol:
- cefndir yr adroddiad
- crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad
- y camau nesaf yn dilyn yr ymgynghoriad hwn.

Gellir cael copïau pellach o'r adroddiad hwn a'r papur ymgynghori trwy gysylltu â'r **Uned Polisi Cyfiawnder Ieuenctid** yn y cyfeiriad isod:

**Youth Remand Policy Team**
The Ministry of Justice
102 Petty France
London SW1H 9AJ

**E-bost**: Remandreview@justice.gov.uk

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn https://consult.justice.gov.uk/

Gellir gofyn am fersiynau o'r cyhoeddiad hwn mewn ffurfiau amgen trwy gysylltu â Remandreview@justice.gov.uk.

## Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych chi unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori, dylech gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn y cyfeiriad uchod.

# Cefndir

Cyhoeddwyd papur ymgynghori 'Trefniadau cyllido remand ieuenctid' ar 16 Awst 2023. Roedd yn gwahodd sylwadau am drefniadau cyllido remand ieuenctid y Weinyddiaeth Gyfiawnder i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr;  ac roedd yn cynnig dewisiadau ar lefel uchel ynghylch cyllid yn y dyfodol.  Roedd yr ymgynghoriad ar gyfer awdurdodau lleol, Timau Troseddwyr Ifanc (YOT) ac eraill sy'n gweithio gyda phlant yn y system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru a Lloegr.

Roedd y papur ymgynghori yn nodi'r system bresennol o gyllido remand ieuenctid ac yn gofyn am safbwyntiau ynghylch sut y gellir defnyddio'r cyllid i fodloni nod y system cyfiawnder ieuenctid sef atal troseddu ac aildroseddu gan blant a phobl ifanc.  Roedd y papur ymgynghori yn cynnig amrediad o ddewisiadau lefel uchel, gan ystyried yr amcanion allweddol:

- Galluogi dewisiadau mwy cadarn i gael eu creu yn lle remandio yn y ddalfa;
- Sicrhau system sy'n darparu gwell gwerth am arian;  a
- Lleihau'r baich gweinyddol sy'n cael ei greu gan y system bresennol.

Nodir yr opsiynau lefel uchel isod (Tabl 1).

| | |
|---|---|
| **Opsiwn 1** | Gwneud dim newid |
| **Opsiwn 2a** | Dosbarthu'r cyllid mewn ffordd wahanol – talu'r cyllid remand i ranbarthau. |
| **Opsiwn 2b** | Dosbarthu'r cyllid mewn ffordd wahanol – newid y fformiwla ar gyfer cyfrifo dyraniadau lleol. |
| **Opsiwn 2c** | Dosbarthu'r cyllid mewn ffordd wahanol – ei gynnwys mewn 'cyllid craidd' ar gyfer YOT. |
| **Opsiwn 3** | Dod â'r model dyrannu i ben a sefydlu pot cyllid canolog ar gyfer ceisiadau. |
| **Opsiwn 4a** | Defnyddio'r cyllid i wella llety – archwilio'r broses o ddarparu llety cymunedol cenedlaethol yn ganolog. |

| | |
|---|---|
| **Opsiwn 4b** | Defnyddio’r cyllid i wella llety – cynyddu’r gwariant ar wella’r ddarpariaeth o fewn yr ystad ddiogel. |

Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 8 Tachwedd 2023 ac mae’r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o’r ymatebion, gan gynnwys sut y mae’r broses ymgynghori yn dylanwadu ar ddatblygiad pellach y polisi yr ymgynghorir arno.

Cyhoeddir Asesiad Effaith llawn ochr yn ochr â chynnig terfynol maes o law.

Gellir gweld papur ymateb Saesneg yn www.gov.uk/government/consultations/consultation-on-youth-remand-funding-arrangements.

Mae Atodiad A yn cynnwys rhestr o’r ymatebwyr.

# Crynodeb o'r ymatebion

1. Cafwyd cyfanswm o 46 o ymatebion i'r papur ymgynghori. O blith y rhain, roedd mwyafrif yr ymatebion (63%) gan awdurdodau lleol. Roedd yr ymatebion eraill a gafwyd gan gyrff cynrychioliadol cenedlaethol sy'n gweithio ym maes cyfiawnder ieuenctid, Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd (PCC), a sefydliadau trydydd sector (gweler Atodiad A). O blith yr ymatebion, cyflwynwyd 39 trwy'r hyb ymgynghori, a chafwyd saith trwy neges e-bost.

2. Cynhaliwyd pedair sesiwn galw heibio i randdeiliaid hefyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Aeth cyfanswm o 56 o bobl i'r digwyddiadau hyn.

3. Dadansoddwyd yr ymatebion i gasglu tystiolaeth am y trefniadau cyllido remand presennol, pa ddewisiadau amgen sydd ar gael yn lle remandio yn y ddalfa, a'r rhesymau pam y gallai'r rhain neu pam na allai'r rhain gael eu defnyddio. Dadansoddwyd yr ymatebion hefyd am y diddordeb ym mhob opsiwn ac am ddirnadaeth ychwanegol o fanteision a heriau pob opsiwn.

<u>Ymatebion</u>

4. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno yn fras nad yw'r trefniadau cyllido presennol mor effeithiol ag y gallent fod, ac roeddent yn cytuno â'r cyd-destun fel y'i nodwyd. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn rhoi mwy o bwyslais ar ddifrifoldeb troseddau, budd llysoedd mewn remandio ar sail risg, ac arwyddocâd ymchwiliadau hir a gorfod aros am gyfnod hir am ddyddiad achos fel ffactorau pwysicach na'r trefniadau cyllido er mwyn sicrhau newid ystyrlon. Teimlwyd bod ysgogiadau awdurdodau lleol dros yr agweddau hyn yn gyfyngedig ac roedd partneriaid eraill yn y broses remand (h.y. yr Heddlu a'r Llysoedd) yn allweddol i'r canlyniadau hefyd. Yn ogystal, nododd yr ymatebwyr eu bod yn teimlo bod y cyllid cyffredinol yn annigonol er mwyn talu'r costau, a bod anghenion plant sy'n cael eu remandio, sy'n aml yn gymhleth, yn gwneud y trefniadau cyllido ar gyfer SCH a STC yn fwy arwyddocaol.

5. Roedd yr ymatebion am y dewisiadau posibl i sicrhau newid yn gymysg, ac nid oedd opsiwn clir yn cael ei ffafrio. Y dewisiadau a oedd ychydig yn fwy poblogaidd oedd model rhanbarthol (opsiwn 2a) a model llety cymunedol cenedlaethol (opsiwn 4a); dewiswyd y ddau gan wyth cyfranogydd (17%). Mynegodd nifer o ymatebwyr eraill ddiddordeb cynnar yn y syniadau hyn trwy gydol yr ymgynghoriad. Roedd ymatebion a gafwyd am y ddau opsiwn yn cynnwys risgiau y mae angen eu hystyried.

6. Dewiswyd peidio â gwneud unrhyw newid (opsiwn 1) a newid y fformiwla i gyfrifo dyraniadau (opsiwn 2b) gan saith cyfranogydd (15%). At ei gilydd, gwelwyd teimlad

cyffredinol nad yw'r system bresennol yn sicrhau'r canlyniad a ddymunir. Fodd bynnag, nododd sawl ymatebydd nad yw'r dewisiadau sydd ar gael yn ddigon manwl ar yr adeg hon a bod angen tystiolaeth ychwanegol. Mynegwyd pryderon am y ffaith y gallai newid y trefniadau cyllido heb dystiolaeth arwain at ganlyniadau gwaeth. Cynnwys y cyllid remand mewn mecanweithiau sy'n bodoli eisoes (opsiwn 2c) oedd y dewis a ffafriwyd gan bedwar ymatebydd. Ar y llaw arall, mynegwyd pryderon gan ymatebwyr eraill y byddai modd defnyddio cronfeydd ar gyfer blaenoriaethau strategol eraill os na chânt eu clustnodi (fel y nodir yn yr opsiwn hwn) er anfantais i'n nodau polisi mewn perthynas â phlant sy'n cael eu remandio yn y ddalfa.

7. Roedd yr opsiynau a ffafriwyd lleiaf, gydag ymatebion negyddol at ei gilydd, yn ymwneud â phot cyllido canolog ar gyfer ceisiadau (opsiwn 3) a defnyddio'r cyllid er mwyn gwella'r ystad ddiogel bresennol (opsiwn 4b). Awgrymodd ymatebwyr y byddai gofyn sicrhau amser, sgiliau ac adnoddau ar gyfer pot cyllido canolog ar gyfer ceisiadau (opsiwn 3), nad ydynt ar gael i awdurdodau lleol yn yr un modd. Ni ystyriwyd bod opsiwn 4b yn sicrhau'r effaith a ddymunir sef lleihau remand mewn Sefydliadau Troseddwyr Ieuenctid (YOI) a chynyddu dewisiadau eraill cymunedol. Fodd bynnag, dylid nodi bod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid cynyddu'r gwariant ar ystadau diogel, ond y dylai hyn fod yn ychwanegol at y cyllid remand (yn hytrach na'i addasu at ddibenion gwahanol). Gellir gweld rhestr lawn o'r opsiynau dan Dabl 1.

8. Nodwyd na fydd y cynigion a nodwyd yn cyflawni'r amcanion ar eu pen eu hunain efallai, o ganlyniad i heriau wrth geisio sicrhau lleoliadau priodol i blant ar draws y farchnad, ac mae angen ystyried y mater hwn fel rhan o heriau y system ehangach. Er enghraifft, alinio yn agosach â'r diwygiadau gofal cymdeithasol a arweinir gan yr Adran Addysg yn Stable Homes, Built on Love.

9. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn teimlo bod angen amser ychwanegol i gynllunio dewis amgen i fodel nad yw'r addas i'r diben ar hyn o bryd, gan ddatblygu'r asesiad o newidiadau Deddf LASPO a amlinellir yn yr ymgynghoriad, ac ystyried safbwyntiau'r ymatebwyr.

10. Rydym wedi adlewyrchu ystod lawn y dewisiadau a ddarparwyd gan ymatebwyr yn ein dadansoddiad. Amlinellir cynnwys yr ymatebion a gafwyd yn fanylach yn y dadansoddiad manwl o bob cwestiwn isod.

11. Hoffem ddiolch i'r holl ymatebwyr am eu hamser a'u hymdrech wrth gymryd rhan yn yr ymarfer ymgynghori.

# Ymatebion i gwestiynau penodol

1. **Yn eich barn chi, a yw'r cyllid remand presennol wedi cefnogi dewisiadau eraill yn lle anfon i'r ddalfa?**

   Ydy: 7

   Nac ydy: 31

   Heb Ateb: 8

   Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn nad yw'r cyllid remand presennol yn cefnogi dewisiadau eraill yn lle anfon i'r ddalfa. Er nododd ymatebwyr eu bod yn ceisio cynorthwyo plant a phobl ifanc gyda dewis arall yn lle anfon i'r ddalfa, ac y dylai hyn barhau i fod yn ystyriaeth allweddol, mae'r trefniadau cyllido presennol yn ei gwneud yn anodd. Y prif resymau a restrwyd gan ymatebwyr oedd costau uwch llety amgen, diffyg cymhellion i awdurdodau lleol o fewn y model cyllido, ac ansicrwydd a natur anrhagweladwy'r cyllid, sy'n cynyddu'r risgiau ariannol i awdurdodau lleol i remandio plant mewn lleoliadau amgen. Un ffactor arall a godwyd gan ymatebwyr oedd diffyg lleoliadau addas sy'n gallu darparu ar gyfer plant ar remand. Nodwyd bod y model cyllido presennol yn creu cymhelliad gwrthnysig trwy wobrwyo'r defnydd uwch o remand yn y ddalfa. Nododd yr ymatebwyr anghenion cymhleth y plant sy'n wynebu cael eu remandio, ac nid oeddent yn teimlo y gwneir cyfeiriadau digonol at iechyd meddwl yn yr ymgynghoriad.

   Dywedodd rhai ymatebwyr a oedd o'r farn bod y cyllid remand presennol yn cefnogi dewisiadau eraill yn lle anfon i'r ddalfa ei fod yn galluogi YOT i ganfod lleoliadau addas a chynigion mechnïaeth pan fydd y llysoedd yn gofyn am hynny.

---

2. **Pa fath o fechnïaeth gydag ymyriad neu becyn remandio i awdurdod lleol ydych chi'n meddwl sy'n diwallu anghenion plant orau ac yn amddiffyn y cyhoedd? A yw'r dewisiadau cymunedol eraill yn eich ardal yn ateb y galw?**

   Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn bod angen i unrhyw fath o becyn mechnïaeth gael ei deilwra yn unigol i fodloni anghenion y plentyn, gan ddiogelu'r cyhoedd ar yr un pryd. Fodd bynnag, mynegwyd barn gyffredinol y dylai pecyn mechnïaeth neu becyn remandio i awdurdod lleol, pryd bynnag y bo modd, fod yn lleol a chynnig cymorth integredig gan sawl gwasanaeth ac asiantaeth. Dywedodd ymatebwyr y gall problemau gyda'r ddarpariaeth addysg fod yn arbennig o heriol. Nodwyd bod nifer o blant yn gallu cael eu rhyddhau ar fechnïaeth i gyfeiriad eu cartref os yw'r opsiwn

hwnnw yn cael ei ddeall yn dda ac yn cael ei drefnu'n ofalus. Roedd yr heriau a fynegwyd gan ymatebwyr yn cynnwys diffyg lleoliadau a'r angen am staff profiadol ac wedi'u hyfforddi'n dda. Mae pecynnau Cymorth a Goruchwyliaeth Ddwys a Chymorth (ISS) wedi mynd yn llai cyffredin, ac mae hyn wedi lleihau rhwydweithio a chydweithio, yn ogystal â bod yn fwy pwrpasol ac yn fwy costus. Roedd ymatebwyr yn teimlo bod dewisiadau amgen cadarn yn gostus iawn mewn perthynas â'r cyllid cyffredinol ar gyfer YOT. Yn ôl eu natur, nodwyd y byddai angen i becynnau mechnïaeth i blant sy'n wynebu cyhuddiadau penodol roi sylw i bryderon difrifol ynghylch diogelu'r cyhoedd, a byddent yn defnyddio cryn adnoddau. Byddai rhai ymatebwyr yn croesawu canllawiau manylach, gyda safonau gofynnol, ynghylch rheoli ISS mechnïaeth. Mae angen ystyried safbwyntiau'r dioddefwr fel rhan ganolog o'r gwaith hefyd.

Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr a roddodd ymateb ynghylch bodloni'r galw lleol yn credu nad yw dewisiadau cymunedol amgen yn bodloni'r galw. Yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn, roedd hyn oherwydd diffyg lleoliadau cymunedol addas. O blith yr ymatebwyr lle y mae lleoliadau cymunedol yn bodloni'r galw, nodwyd bod hyn o ganlyniad i'r galw isel a'r ffaith nad yw'r ddarpariaeth ISS yn hyblyg.

---

**3. Beth sy'n dylanwadu ar y tebygolrwydd y bydd dewisiadau cymunedol eraill yn lle remandio yn y ddalfa yn cael eu cyflwyno i lysoedd yn eich ardal leol? Pam ydych chi'n meddwl nad ydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn y defnydd o ddulliau eraill yn lle anfon i'r ddalfa?**

Mynegwyd barn gyffredinol bod diffyg lleoliadau preswyl addas i blant ar draws gwasanaethau iechyd a lles, a phan fo angen sicrhau lleoliadau ar fyr rybudd, bod hyn yn gwaethygu'r sefyllfa. Mae gwaith aml-asiantaeth yn hanfodol i sicrhau y cyflwynir dewis cymunedol gwahanol; fodd bynnag, mae hyn yn heriol o ystyried yr amserlen fer ar gyfer paratoi'r rhain. Mae arestiadau a lleoliadau y tu allan i'r ardal yn ffactor arall a godwyd. Mae hyder y farnwriaeth mewn dewisiadau gwahanol a'r cwestiwn ynghylch a ellir rheoli risgiau yn y gymuned yn ffactor arall. Nododd rhai ymatebwyr y bydd y newidiadau cyfreithiol yn Neddf PCSC yn dylanwadu ar nifer yr achosion o fanteisio ar ddewisiadau eraill yn lle y ddalfa, ond mae'r rhain yn ymwreiddio o hyd.

Nodwyd bod llety neu becynnau cymunedol yn gallu bod yn anos mewn ardaloedd gwledig (y gallent fod heb yr adnoddau) ac mewn ardaloedd trefol (lle y gallai preswylwyr eraill wrthwynebu i leoliadau risg uchel gerllaw). Er bod arfer gorau yn gadarn mewn rhai ardaloedd, efallai na fydd gweithwyr cyfiawnder ieuenctid heb achosion remand cyson yn meddu ar y profiad i gyflwyno achos cadarn gerbron y llys. Nododd rhai ymatebwyr bod angen remandio yn y ddalfa mewn rhai achosion oherwydd difrifoldeb y drosedd, megis ymgais i lofruddio neu weithgarwch sy'n gysylltiedig â therfysgaeth, ac mae achosion o dorri amodau mechnïaeth yn gyson gan

rai plant yn golygu bod y dewisiadau ac eithrio remandio i’r ddalfa yn mynd yn brin i’r llysoedd.

Mae rhai ymatebwyr yn credu y bu cynnydd mewn dewisiadau gwahanol i’r ddalfa mewn rhai ardaloedd gwledig, yn ogystal ag yng Nghymru, a gaiff ei golli mewn ystadegau sy’n ystyried y sefyllfa ar draws Cymru a Lloegr.

Pwysleisiodd nifer fach o ymatebwyr yr angen i ystyried ffyrdd o alluogi plant i aros yn y cartref teuluol ar fechnïaeth os bydd modd rheoli’r risgiau yno.

---

**4. Beth yw eich barn am barhau â’r model cyllido (Opsiwn 1)?**

Mynegwyd barn gyffredinol nad yw’r model presennol yn cefnogi datblygiad dewisiadau cymunedol eraill gan nad yw yn aml yn talu costau dewisiadau gwahanol yn ôl yr ymatebwyr, ac nid yw’n cynnig rhagweladwyedd, cynaliadwyedd a chynllunio strategol dros y tymor hwy er mwyn eu galluogi. Dywedodd ymatebwyr bod y dull cyllido presennol yn cynnwys elfen anrhagweladwy a bod ‘digwyddiadau cynnydd sydyn’ (h.y. sawl plentyn yn rhan o un digwyddiad difrifol) yn gallu golygu goblygiadau ariannol mawr i sefyllfa ariannol awdurdodau lleol. Nodwyd hefyd bod y system bresennol yn cosbi’r rhai sy’n gostwng nifer yr achosion remandio trwy ddefnyddio defnydd hanesyddol o Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (YOI) fel y sail. Awgrymwyd dull gweithredu sy’n seiliedig ar ffactorau gwrthrychol sy’n gysylltiedig â throseddu ieuenctid yn lle hynny.

Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y rhesymeg sy’n sail i’r cyllid yn berthnasol o hyd, ac roeddent yn hoffi’r ffaith bod y model presennol yn cynnig ymreolaeth leol dros benderfyniadau a chyllidebau. Yn ogystal, roedd nifer o ymatebwyr o’r farn mai ar sail tystiolaeth lawn yn unig y dylid newid y sefyllfa, er mwyn sicrhau nad yw newidiadau yn arwain at ganlyniadau anfwriadol, ac nad oedd tystiolaeth ddigonol wedi cael ei darparu ar yr adeg hon.

---

**5. Sut ydych chi’n meddwl y gallai model rhanbarthol (Opsiwn 2a) effeithio ar y dewisiadau cymunedol amgen i anfon i’r ddalfa sydd ar gael?**

Mynegwyd barn gyffredinol, er bod potensial y gallai model rhanbarthol fod o fudd i ardaloedd penodol, y byddai hwn yn gymhleth, gan arwain at heriau ac fe allai gael rhai canlyniadau anfwriadol. Roedd ymatebwyr a oedd o blaid model rhanbarthol yn cytuno y byddai’n cynorthwyo ardaloedd i rannu adnoddau a dysgu, ac mae hyn eisoes i’w weld mewn rhai ardaloedd lle y maent yn cydweithio ar leoliadau arbenigol, megis gwelyau sy’n cael eu darparu i drosglwyddo plant dan Adran 38(6) Deddf yr Heddlu a

Thystiolaeth Droseddol (PACE) 1984 er mwyn osgoi cadw plant yn yr orsaf heddlu dros nos.

Roedd ymatebwyr o’r farn bod model rhanbarthol yn gofyn am gorff arweiniol cadarn ac eglurder o ran rolau, gan gynnwys partneriaid iechyd. Awgrymwyd adolygu’r dysgu o’r modelau consortia blaenorol [2014 – 2022]. Nodwyd y gallai model rhanbarthol wrthbwyso digwyddiadau sbigyn a chreu mwy o gyfleoedd i arloesi.

Mynegwyd pryderon gan rai ymatebwyr y gallai cronfeydd a/neu leoliadau gael eu defnyddio gan un ardal leol i gyd. Nodwyd y gallai fod gan wahanol ardaloedd wahanol anghenion a gwahanol drefniadau gwleidyddol, y gallent effeithio ar lwyddiant model rhanbarthol. Codwyd cwestiynau hefyd ynghylch a fyddai’n cael ei orfodi, ac a fyddai modd rhoi mandad i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd neu gyrff rhanbarthol, a sut y byddai rhwydweithiau o Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant yn rhan o hyn. Nododd ymatebwyr y byddai angen rhoi ystyriaeth arbennig i Gymru o ganlyniad i’w maint daearyddol; ac a fyddai’r dyraniad rhanbarthol yn gysylltiedig â’r wlad gyfan neu ardaloedd heddluoedd.

Mynegwyd barn gyffredinol y gallai dysgu o brosiect Braenaru Llety Llundain, prosiect peilot Manceinion Fwyaf, a chynlluniau yn y dyfodol ar gyfer Mentrau Cydweithredol Gofal Rhanbarthol (RCC), wella dealltwriaeth o risgiau, heriau a manteision model rhanbarthol ymhellach.

---

**6. Pa mor hawdd neu anodd fyddai hi i’ch rhanbarth fabwysiadu model rhanbarthol (Opsiwn 2a)?**

Mynegwyd safbwyntiau cymysg ynghylch a fyddai hi’n hawdd neu’n anodd mabwysiadu model rhanbarthol. Mynegwyd barn gyffredinol bod llwyddiant gweithredu model rhanbarthol yn dibynnu ar bartneriaethau sy’n bodoli eisoes yn y rhanbarth, y maint daearyddol, y boblogaeth ac amrywiaeth y rhanbarth, megis rhanbarthau gwledig a threfol.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yr oeddent o’r farn y byddai modd mabwysiadu model rhanbarthol yn hawdd, yn dod o ardaloedd y mae’n ymddangos bod ganddynt bartneriaethau cadarn mewn grym yn barod, ac y maent yn cydweithio ar draws meysydd o fewn y system cyfiawnder ieuenctid.

Roedd y prif bryderon a fynegwyd yn ymwneud â maint ac amrywiaeth rhanbarthau penodol. Mae rhai ardaloedd mawr yn amrywiol iawn ac maent yn cynnwys ardaloedd gwledig, lled-drefol a threfol, sy’n cyflwyno gwahanol flaenoriaethau, heriau ac anghenion. Mynegodd rhai ymatebwyr y broblem y gallai rhanbarthau sy’n cynnwys

awdurdodau lleol o feintiau amrywiol arwain at ranbarthau yn cael eu rheoli gan awdurdodau lleol mwy o faint.

---

**7. Ydych chi'n meddwl y byddai'n well cyflawni ein nodau trwy ddiwygio'r mecanwaith cyllid (Opsiwn 2b a 2c)? Beth yw eich barn am gyfuno'r cyllid sy'n ymwneud â statws Plentyn sy'n Derbyn Gofal (LAC) â chyllid ehangach ar gyfer gwasanaethau plant?**

<u>Opsiwn 2b: Newid y fformiwla ar gyfer cyfrifo'r dyraniadau.</u>

Mynegwyd barn gyffredinol, os bydd newid yn y mecanwaith cyllido yn cynnig mwy o sicrwydd a chyllid dros y tymor hwy, bydd yn cael effaith gadarnhaol. Awgrymodd ymatebwyr mai buddiol fyddai model cyllido sy'n cydnabod ac sy'n cynnwys dewisiadau eraill yn lle'r ddalfa yn ei ddyraniad. Fodd bynnag, amlygodd ymatebwyr y byddai unrhyw newidiadau i'r fformiwla cyllido remand yn heriol. Amlygwyd hefyd yr angen i unrhyw ddiwygio fod yn dryloyw.

<u>Opsiwn 2c: Cynnwys y cyllid remand yn y mecanweithiau cyllido presennol.</u>

Mynegwyd pryderon gan ymatebwyr ynglŷn â chynnwys cyllid remand mewn mecanweithiau cyllido ehangach, megis setliad cyllid llywodraeth leol, oherwydd y gallai arwain at ddefnyddio'r cyllid ar gyfer blaenoriaethau eraill. Dywedodd un ymatebydd bod eu cyllid remand yn cael ei glustnodi yn fewnol i'w ddefnyddio mewn ffordd benodol iawn i ariannu rhaglen ISS. Mynegwyd barn gyffredinol, y dylid clustnodi cyllid os caiff y cyllid ei gynnwys mewn mecanweithiau eraill.

Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr o blaid cynnwys yr holl gyllid remand neu'r cyllid sy'n ymwneud â statws LAC yn y cyllid ehangach ar gyfer gwasanaethau plant. Nododd ymatebwyr ei bod yn debygol y bydd unrhyw gyllideb yn cael ei defnyddio i wrthbwyso pwysau cynyddol arall ar y gwasanaethau hyn. Fodd bynnag, nododd rhai ymatebwyr bod cyfuno eisoes yn digwydd mewn awdurdodau lleol lle y mae gofal cymdeithasol plant o'r farn ei bod yn well cyfuno'r dull gweithredu ar gyfer yr holl blant sydd â statws LAC. Teimlwyd mai un o fanteision cyfuno cyllidebau yw y byddai hyn yn galluogi cynlluniau tymor hir i dalu am wasanaethau ISS.

---

**8. Ydych chi'n meddwl y byddai galluogi cyllid drwy geisiadau yn effeithio ar y dewisiadau eraill sydd ar gael yn lle anfon i'r ddalfa (Opsiwn 3)?**

Ydw: 16

Nac ydw: 17

Heb Ateb:  13

Nid oedd mwyafrif yr ymatebwyr o blaid gweithredu pot cyllid canolog ar gyfer cynigion (opsiwn 3).  Er bod rhai ymatebwyr o’r farn y gallai helpu wrth fod yn arloesol a datblygu dewisiadau eraill yn lle’r ddalfa, byddai’n arwain at sawl canlyniad anfwriadol.  Roedd pryderon na fyddai rhai awdurdodau lleol yn cael unrhyw gyllid, a fyddai’n lleihau dewisiadau eraill mewn ardaloedd penodol oherwydd y byddai’r dewis rhataf o remandio plant yn cael ei ddefnyddio.  Un o’r prif bryderon a fynegwyd oedd y ffaith bod ymgeisio am gynigion yn cymryd amser ac adnoddau, ac y gallai’r rhain gael eu dargyfeirio o ddarpariaeth weithredol.  Mynegwyd barn gyffredinol nad yw’n broses deg gan na chaiff ei thywys gan y galw na’r anghenion.  Mynegwyd pryderon y byddai’n ffafrio awdurdodau lleol mwy o faint, gan roi rhai llai dan anfantais.  Roedd ymatebwyr yn dadlau hefyd bod anwadalrwydd y boblogaeth remand yn golygu na fydd rhai ardaloedd yn cael unrhyw remandio ond cyllid, a bydd eraill yn cael remandio ond dim cyllid.

---

**9. Ydych chi’n meddwl y gallai dull gweithredu canolog gefnogi dewisiadau eraill yn lle anfon i’r ddalfa (Opsiwn 4)?**

Ydw:  17

Nac ydw:  16

Heb Ateb:  13

<u>Opsiwn 4a:  Terfynu’r model cyllido ac archwilio darpariaeth ganolog ar gyfer model llety cymunedol cenedlaethol.</u>

Roedd safbwyntiau cymysg ynghylch a allai dull gweithredu canolog gefnogi dewisiadau eraill yn lle anfon i’r ddalfa.  Nodwyd bod proses ganolog yn gallu bod yn ddefnyddiol pe bai’n dod ag arweinyddiaeth i wasanaethau megis maethu ar remand (yr oedd ganddo system genedlaethol yn flaenorol).  Nododd ymatebwyr hefyd y gallai’r dull hwn o ymdrin â llety leddfu heriau sy’n bodoli eisoes, megis sicrhau lleoliadau addysg, staffio a phryderon ariannol.  Roedd nifer o ymatebwyr o’r farn bod gan ddull gweithredu canolog y potensial i alluogi dewisiadau eraill, trwy gyfrwng grym comisiynu, arbenigedd, cydlynu a gweledigaeth glir.

Fodd bynnag, cododd mwyafrif yr ymatebwyr gwestiynau ynghylch lleoliad unedau llety a’r angen am wasgariad daearyddol, er mwyn sicrhau na chaiff plant eu lleoli yn rhy bell o’u cymunedau.  Mynegwyd pryderon hefyd am y ffaith y byddai unrhyw ddull gweithredu cenedlaethol yn drwm iawn ar adnoddau ac y gallai ddioddef diffyg hygrededd yn lleol.  At hynny, nodwyd bod y gystadleuaeth am leoliadau a darparwyr

yn uchel ar lefel genedlaethol, ac fe allai hyn effeithio ar ddichonoldeb y model hwn. Nododd rhai ymatebwyr nad oes digon o fanylion i allu penderfynu ar yr adeg hon, a bod angen gwybodaeth bellach am ei ymarferoldeb, megis comisiynu, codi tâl am welyau, sut i archebu gwelyau ac ati. Nodwyd y byddai gofyn cynnal treialon neu gynlluniau peilot ar raddfa lai efallai er mwyn gwneud newid mor fawr. Syniad arall oedd model cymorth cenedlaethol a allai fynd law yn llaw â phlant sy'n aros yn eu llety presennol neu yng nghartref y teulu.

Opsiwn 4b: Terfynu'r model cyllido a chynyddu'r gwariant ar wella'r ddarpariaeth o fewn yr ystad ddiogel.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn na ddylid defnyddio'r cyllid remand i wella'r ddarpariaeth yn yr ystad ddiogel, er nodwyd pryderon am yr heriau y mae'r ystad ddiogel yn eu hwynebu mewn adroddiadau arolygu amrywiol. Roedd ymatebwyr o'r farn y dylid gwneud hyn law yn llaw â'r cyllid remand.

---

**10. Pa opsiwn ydych chi'n meddwl fyddai'n diwallu ein hamcanion orau?**

Tabl 2

| Opsiwn | Cyfanswm |
|---|---|
| **Opsiwn 1: Gwneud dim newid** | 7 |
| **Opsiwn 2a: Dylunio model rhanbarthol ar gyfer taliadau** | 8 |
| **Opsiwn 2b: Newid y fformiwla ar gyfer cyfrifo'r dyraniadau** | 7 |
| **Opsiwn 2c: Cyflwyno'r cyllid remand i fecanweithiau cyllido presennol** | 4 |
| **Opsiwn 3: Dod â'r model cyllido i ben a sefydlu pot cyllid canolog** | 1 |
| **Opsiwn 4a: Archwilio darpariaeth ganolog model llety cymunedol cenedlaethol** | 8 |
| **Opsiwn 4b: Cynyddu gwariant ar wella'r ddarpariaeth yn yr ystad ddiogel** | 1 |
| **Heb Ateb** | 10 |
| **Cyfanswm** | 46 |

Nid oedd dewis clir a oedd yn cael ei ffafrio ymhlith yr ymatebwyr. Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn mai dull gweithredu cyfunol o wahanol ddewisiadau o bosib fyddai'r un mwyaf buddiol.

**11. A oes gennych gynnig arall ar gyfer diwygio cyllid remand? Eglurwch sut mae hyn yn wahanol i'r opsiynau a amlinellir yn y ddogfen hon.**

Oes: 15

Nac oes: 26

Heb Ateb: 5

Awgrymodd rhai o'r ymatebwyr y gallai cyllid mwy cynaliadwy (h.y. cyllid amlflwyddyn) neu gyllid amser real yn hytrach na dyraniadau sy'n seiliedig ar dueddiadau hanesyddol gymell buddsoddiad mewn dewisiadau eraill effeithiol. Roedd cynigion hefyd i gynnwys yr holl ddewisiadau eraill yn lle anfon i'r ddalfa, yn ogystal â chostau STC ac SCH, yn y model cyllido remand. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid mynd yn ôl i drefniant lle mai'r llywodraeth sy'n gyfrifol am dalu costau yr holl achosion remandio yn y ddalfa, neu achosion remandio a orfodir gan Lysoedd y Goron. Un syniad arall oedd ystyried ehangu'r cyllidebau remand i gynnwys cyllidebau dalfa er mwyn cynyddu maint y pot sydd ar gael, gan gyfeirio at gynllun Braenaru Ailfuddsoddi yn y Ddalfa Cyfiawnder Ieuenctid 2011-13.

Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys canolbwyntio ar gyllid ar gyfer remandio am gyfnod hir, ac achosion aml-law yn benodol, yn hytrach na chyfnodau remandio byr, y gallent olygu graddfa symudol o gostau gwely dros nos. Awgrymwyd y byddai modd creu pot canolog i dalu am leoliadau remand ar gyfer troseddau aml-law neu fenter ar y cyd, yn ychwanegol i daliadau uniongyrchol.

Awgrymwyd hefyd y gallai mwy o gyllid neu gymorth gael ei neilltuo ar gyfer ISS (ac ystyried dysgu o gynlluniau peilot ISS y Gorchymyn Adsefydlu Ieuenctid) ac y gallai achosion remandio yn y ddalfa gynnwys pwyntiau adolygu mwy rheolaidd, neu ddefnyddio paneli craffu.

Awgrym arall oedd edrych y tu hwnt i fuddsoddiad cyfalaf, yn arbennig adeiladau ar gyfer model llety cenedlaethol, ond gan ystyried comisiynu gwasanaethau ychwanegol sy'n galluogi dewisiadau amgen i'r ddalfa, h.y. gwasanaethau ISS neu faethu mewn achosion remandio.

**12. Pe bai'r cyllid yn newid, pa drefniadau pontio fyddai'r pwysicaf i chi?**

Pwysleisiodd y rhan fwyaf yr ymatebwyr yr angen am rybudd hirdymor digonol cyn y gwneir unrhyw ddiwygiadau, neu'r angen i beilota newidiadau mawr a dysgu gan gynlluniau peilot perthnasol sy'n mynd rhagddynt. Nodwyd hefyd bod angen gwneud gwaith cyfathrebu ac ymgynghori pellach gyda rhanddeiliaid i gyfrannu at y model cyllido newydd. Mae angen sicrhau eglurder am unrhyw newidiadau sy'n cael eu

gwneud a'r effaith y bydd hyn yn ei chael ar awdurdodau lleol fel y gallant baratoi ar eu cyfer yn y ffordd orau. Mae angen ystyried yn ofalus yr effaith ar gymunedau, dioddefwyr, pobl ifanc a'u teuluoedd. Awgrymwyd y dylid cynnwys pwynt adolygu yn y dyfodol mewn unrhyw system newydd.

---

**13. Yn eich barn chi, beth fyddai effaith y cynigion ar gydraddoldeb yn achos unigolion â nodweddion gwarchodedig? A oes unrhyw fesurau lliniaru y dylai'r llywodraeth eu hystyried? A oes canlyniadau cydraddoldeb cadarnhaol posibl y dylai'r llywodraeth eu hystyried? Rhowch resymau a data os oes modd.**

Pwysleisiodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr bod remand ieuenctid yn faes lle y gwelir grwpiau ethnig cymysg a du yn cael gorgynrychiolaeth sylweddol, a bydd angen i unrhyw newidiadau i'r fformiwla cyllido roi sylw i hyn. Awgrymwyd y dylai unrhyw weithgarwch i ddatblygu dewisiadau eraill yn lle anfon i'r ddalfa fod yn sensitif i'w hanghenion ar lefel ddiwylliannol. Os bydd y defnydd o YOI yn parhau ar gyfer y rhai na allant fanteisio ar ddarpariaeth gymunedol, rhybuddiwyd y dylid rhoi ystyriaeth ofalus i'r ffordd y gallai'r system newydd effeithio ar wahaniaethau presennol yn y system (h.y. pa blant sy'n cael eu remandio yn y gymuned a pha blant sy'n cael eu remandio yn y ddalfa). Pe byddai diwygiadau i'r cyllid ar gyfer remand ieuenctid yn golygu bod modd datblygu dewisiadau cymunedol eraill, mynegwyd barn gyffredinol y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol.

Er nad hyn oedd yn rhan o'r ymgynghoriad, nodwyd y byddai modd defnyddio prisiau sector fel mecanwaith i sicrhau bod unrhyw ddylanwad yn y mecanwaith cyllido yn gweithio mewn ffordd gyfartal ar gyfer plant o bob oed (sy'n gymwys ar gyfer gwahanol sefydliadau). Awgrymodd un ymatebydd godi gwahanol symiau am remandio plant sydd â nodweddion gwarchodedig.

---

**14. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am y materion hyn?**

Nodwyd bod problemau gydag achosion remandio hir ac amrywiadau yn fwy dwys mewn dinasoedd craidd a bod realiti demograffig achosion remandio yn y ddalfa yn golygu bod rhywfaint o fudd i rôl arwain ar gyfer dinasoedd craidd.

Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen cynnal adolygiad llawn o'r newidiadau i Ddeddf LASPO 2012 sy'n ymwneud â remand. Roedd eraill yn teimlo y byddai adolygiad llawn o dirlun ymyrraeth gynnar ar draws partneriaid lleol megis iechyd, yn cyfyngu ar weithgarwch gweithio mewn seilos, gan sicrhau bod plant sydd ag anghenion cymhleth yn cael eu cynorthwyo gydag un llwybr.

Mynegwyd pryder hefyd gan ymatebwyr ynghylch y problemau y mae YOI yn eu hwynebu ar hyn o bryd, gan gynnwys y rhai dros 18 oed yn aros yn y ddalfa ieuenctid ac effaith hyn ar effeithiolrwydd YOI.

# Asesiad Effaith, Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg

## Cydraddoldeb

Mae Adran 149 Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion a'r Adran wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau, i roi "sylw dyladwy" i'r angen i:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waharddir gan neu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn rhannu'r nodwedd hon;
- meithrin cysylltiadau da rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn rhannu'r nodwedd hon.

Mae angen ystyried rhoi "sylw dyladwy" yn erbyn y naw nodwedd warchodedig dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Y naw nodwedd warchodedig yw hil, rhyw, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd a chred, oedran, priodas a phartneriaeth sifil, ailbennu rhywedd, a beichiogrwydd a mamolaeth.

Mae ystyried effaith cynigion a gweithredu unrhyw gynigion yn ddyletswydd barhaus. Byddwn yn nodi'r diwygiadau yr ydym yn bwriadu eu gwneud. Ar yr adeg honno, byddwn yn cyhoeddi Datganiad Cydraddoldeb llawn a fydd hefyd yn ystyried yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad.

# Casgliad a’r camau nesaf

1. Byddwn yn cynnal gwaith dadansoddi pellach i ddeall effaith diwygio’r trefniadau cyllido remand ieuenctid. Ystyrir ymatebion o’r ymgynghoriad hefyd wrth gynnal y dadansoddiad.

2. Cynhelir gweithgarwch ymgysylltu ychwanegol gyda rhanddeiliaid i brofi opsiynau ymhellach. O ystyried yr opsiynau sy’n cael eu hystyried, efallai na fydd awdurdodau lleol yn cael taliadau remand uniongyrchol mewn unrhyw ffurf o 2025/26. Byddwn yn rhoi cymaint o rybudd ag y bo modd am unrhyw newidiadau a wneir yn y dyfodol, a byddwn yn ystyried trefniadau pontio pragmatig. Er hyn, rydym yn cynghori partneriaid lleol i ystyried a chynllunio trefniadau lleol yn ofalus yn 2024/25. Cynhelir gweithgarwch cydweithio pellach gyda’r holl randdeiliaid, gan gynnwys awdurdodau lleol.

3. Ar ôl cyfyngu nifer y dewisiadau polisi i ddiwygio’r trefniadau cyllido remand ieuenctid, byddwn yn cwblhau asesiad beichiau newydd ac yn cyhoeddi ein dadansoddiad llawn, sef Asesiad Effaith llawn ac Asesiad Cydraddoldeb.

# Egwyddorion ymgynghori

Nodir yr egwyddorion y dylai adrannau’r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill eu mabwysiadu er mwyn ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth yn Egwyddorion Ymgynghori Swyddfa’r Cabinet 2018:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/691383/Consultation_Principles__1_.pdf

# Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr

- Action for Race Equality
- Alliance for Youth Justice (AYJ)
- Bwrdeistref Southwark Llundain
- Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB)
- Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn
- Cyfiawnder Ieuenctid Lambeth
- Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Plant Cyf (ADCS)
- Cymdeithas Llywodraeth Leol (LGA)
- Cymdeithas y Rheolwyr Timau Troseddwyr Ifanc (AYM)
- Cymdeithas yr Ynadon
- Cyngor Dinas Coventry
- Cyngor Dinas Derby
- Cyngor Dinas Manceinion
- Cyngor Sir Caint
- Cyngor Sir Essex
- Cyngor Sir Hampshire
- Cyngor Sir Hertford
- Cyngor Swydd Gaerloyw
- Cyngor Wakefield
- GIG Lloegr

- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Phlant Swydd Gaerhirfryn
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Blackburn a Darwen
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Bradford
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Calderdale
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Camden
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Cilgwri
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gateshead
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gogledd Swydd Efrog
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Hammersmith a Fulham
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Hillingdon
- Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Swydd Gaer
- Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Blaenau Gwent a Chaerffili
- Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Knowsley
- Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc Swydd Buckingham
- Positive Steps a Chyngor Oldham
- Rheolwyr Timau Troseddwyr Ifanc Cymru
- Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Swydd Warwick
- Swyddfa Maer Llundain dros Blismona a Throseddu (MOPAC)
- Swyddfa PCC De Swydd Efrog
- Tîm Cyfiawnder Ieuenctid Stockton
- Tîm Troseddwyr Ifanc Thurrock
- Together for Children
- Transform Justice
- Unigolyn (x1)

- Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai

[Peidiwch â dileu'r toriad adran dan y testun hwn.]

[gadewch yn wag – tu mewn y clawr cefn]

**© Hawlfraint y Goron 2023**

Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan amodau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle y nodir fel arall.  I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Pan fyddwn wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi sicrhau caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

O wneud cais, mae fersiynau o'r adroddiad hwn ar gael mewn ffurfiau amgen gan Remandreview@justice.gov.uk.